BYWGRAFFIAD ARTIST

Lluís Calvet i Pey

Baritone

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Dechreuodd y bariton Catalanaidd Lluís Calvet i Pey ei astudiaethau yn y Conservatori Professional de Sabadell gyda'r athrawes canu, Elisenda Cabero. Yn 2017 dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth Addewidion Ifanc gan y Fundació de Música Ferrer-Salat i astudio am radd canu yn y Conservatori Superior del Liceu gyda'r athrawes ganu, Maria Dolors Aldea, y hyfforddwraig lleisiol Marta Pujol, a'r athro siambr Alan Branch.

Ym mis Medi 2020, symudodd Lluís i Gaerdydd i ddechrau ei flwyddyn olaf o astudiaethau israddedig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fel rhan o raglen ERASMUS ac yna fe'i gwahoddwyd i ymuno ag Ysgol Opera David Seligman. Dyfarnwyd ysgoloriaeth i Lluís gwblhau ei MA mewn Opera Uwch yn CBCDC gan y Clive Richards Foundation a'r John & John Foundation.

Ar hyn o bryd mae Lluís yn aelod o Stiwdio Opera Ryngwladol y Staatsoper Hannover, lle mae ei rolau yn cynnwys **William** yn *The Fall of the House of Usher,* **Fiorello** yn *Il Barbiere di Siviglia,* **Belcore** yn *L'elisir d'amore,* **Lovec** yn *Rusalka,* **M. Javelinot, Second Commissioner** a **Jaile**r yn *Dialogues des Carmélites*, **Sherifa** yn *Hamed und Sherifa* gan Zad Moultaka, **Ruggiero** yn *Die Jüdin* gan Halévy a **Ping** yn *Turning Turandot.*

Ymysg ei ymrwymiadau diweddar eraill mae **Small Prisoner/Bitter Prisoner** yn *From the House of the Dead* yng Ng?yl Haf Ruhrtriennale dan arweiniad Dennis Russell Davies a **Publio** mewn recordiad o *L'Esule di Roma* gydag Opera Rara a'r Britten Sinfonia dan arweiniad Carlo Rizzi. Yn 2022, cymerodd ran yn L'Academia Rossiniana di Pesaro yn chwarae rhan **Lord Sidney** yn *Il viaggio a Reims* gan Rossini. Fel aelod o CBCDC, roedd ei rolau yn cynnwys **Eisenstein** yn *Die Fledermaus* a **Count Almaviva** yn *The Marriage of Figaro*. Mae ei gynlluniau nesaf yn cynnwys **Chou en-lai** yn *Nixon in China* ar gyfer Staatsoper Stuttgart dan arweiniad André de Ridder a **Prunier** (fersiwn bariton) mewn recordiad o *La Rondine* gan Puccini gydag Opera Rara a Cherddorfa Symffoni'r BBC, dan arweiniad Carlo Rizzi.

Yn ddiweddar, enillodd Lluís saith gwobr yn y 61 International Tenor Viñas Singing Competition yn Barcelona, gan gynnwys Gwobr Arbennig, a gynigiwyd gan y Teatro Nacional de la Zarzuela, i berfformiwr gorau Zarzuela a Gwobr Eithriadol, a gynigiwyd gan y tenor Plácido Domingo, i'r canwr Sbaeneg orau. Cyrhaeddodd Lluís rownd derfynol Cystadleuaeth Ganu Belvedere 2023, ac enillodd yr ail wobr yng nghystadleuaeth ganu Concours de Cant les Corts de Barcelona yn 2020. Mae wedi mynychu gweithdai cerdd yn y Royaumont Abbey & Foundation gyda Stéphane Degout, Alain Planès, Christian Immler, Andreas Frese a Claire Thirion, ac mae wedi derbyn nifer o wobrau, yn fwyaf diweddar Ysgoloriaeth Eva Kleinitz gan Opera Europa.

Mae gan Lluís repertoire cyngerdd ac Oratorio helaeth ac mae wedi perfformio Meseia Handel, Magnificat Rutter a Requiem Mozart, Fauré a Brahms.